

18fed o Ragfyr 2020

*Annwyl Riant / Warcheidwad*



**TREFNIADAU AR GYFER DECHRAU TYMOR Y GWANWYN**

Rydym wedi derbyn yr wybodaeth isod gan yr Awdurdod Lleol neithiwr:

**Datganiad gan Gyngor Torfaen ar ddychwelyd i addysg ym mis Ionawr**

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a CLILC, bydd y tymor ysgol newydd yn dechrau ar y 4ydd o Ionawr ar gyfer dysgu cyfunol yn holl ysgolion Torfaen am yr wythnos gyntaf.

Mae ysgolion sydd wedi cynllunio diwrnodau HMS ar ddau ddiwrnod cyntaf yr wythnos hon wedi hysbysu rhieni a byddant yn darparu cymorth i addysgu yn y cartref o'r 6ed - 8fed o Ionawr.

Disgwyliwn y bydd yr holl ysgolion yn Nhorfaen yn dysgu mwyafrif eu disgyblion wyneb yn wyneb o ddydd Llun, 11eg o Ionawr.

Bydd y cyngor ac ysgolion yn gwneud trefniadau i ddysgwyr bregus a phlant gweithwyr hanfodol (yn cynnwys staff ysgolion) fynychu'r ysgol rhwng y 6ed - 8fed Ionawr.

Dywedodd y Cyngorydd Richard Clark, Aelod Gweithredol dros Addysg, Cyngor Torfaen: "Bydd ein cynllun o ran dychwelyd i'r ysgol ym mis Ionawr yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i rieni wrth i'r gwyliau Nadolig gychwyn. Gwyddom gan ein plant a'n pobl ifanc eu bod yn dysgu orau pan fyddant yn yr ystafell ddosbarth yn derbyn addysg wyneb yn wyneb, felly mae'n rhaid i ni geisio sicrhau cyn lleied o aflonyddu â phosibl ar eu haddysg. Rhaid imi ddiolch i rieni, athrawon, staff yr ysgolion a phob dysgwr am eu hamynedd a'u dyfalbarhad parhaus i helpu i gadw ein cymunedau'n ddiogel"

**Felly, i grynhoi:**

|            |   |
|------------|---|
| 4.01.2021  | Dim disgyblion yn yr ysgol. Dysgu ar lein - gwefan gwaith yr ysgol. |
| 5.01.2021  | Dim disgyblion yn yr ysgol. Dysgu ar lein - gwefan gwaith yr ysgol. |
| 6.01.2021  | *Hwb yn yr ysgol a dysgu ar lein - gwefan gwaith yr ysgol.          |
| 7.01.2021  | *Hwb yn yr ysgol a dysgu ar lein - gwefan gwaith yr ysgol.          |
| 8.01.2021  | *Hwb yn yr ysgol a dysgu ar lein - gwefan gwaith yr ysgol.          |
| 11.01.2021 | Pob disgybl yn yr ysgol.  |

\* Os ydych chi'n weithiwr **allweddol** ac yn credu eich bod yn gymwys i gael lle i'ch plentyn yn yr Hwb, cysylltwch â'r ysgol drwy'r adran 'Cysylltwch â ni' ar y wefan i ofyn am holiadur cymhwysedd. **Mae angen cwblhau hwn a'i ddychwelyd erbyn 23ain o Ragfyr.** Bydd angen i unrhyw ddisgyblion sy'n mynychu'r Hwb ddod â phhecyn cinio.

Ymddiheurwn bod trefniadau'r tymor newydd wedi newid ond hoffwn bwysleisio nad penderfyniad yr ysgol yw hwn a rhaid i ni ddilyn arweiniad gan yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru.

Mae sefyllfa COVID-19 ar draws Torfaen yn un bregus felly mae hi'n bwysig bod pawb yn cadw at y rheolau er mwyn diogelu eich iechyd ac iechyd holl gymuned yr ysgol.

*Cofion gorau,*

*Miss Evans a'r holl staff*

18<sup>th</sup> December 2020



Dear Parent / Guardian,

### ARRANGEMENTS FOR THE START OF THE SPRING TERM

We have received the following information from the Local Authority last night:

#### **Statement from Torfaen Council on the return to education in January**

Following discussions with the Welsh Government and the WLGA, the new school term will start on 4<sup>th</sup> January for supported home learning in all Torfaen schools for the first week.

Any school which has planned INSET days on the first two days of this week have notified parents and will provide supported home learning from the 6<sup>th</sup> - 8<sup>th</sup> January.

Our expectation is that all Torfaen schools will be providing face-to-face learning for the majority of their pupils from Monday, 11<sup>th</sup> January.

Each school will make their own arrangements for vulnerable learners and the children of critical workers (including school staff) to attend school on or after the 6<sup>th</sup> of January.

Torfaen Council's Executive Member for Education, Cllr Richard Clark, said: "Our plan for the return to school in January will give parents some certainty as we break for the Christmas period. We know from our children and young people that they learn best when in the classroom receiving face-to-face learning so we must look to minimise disruption to their education. I must thank parents, teachers, school staff and all learners for their continued patience and perseverance to help keep our communities safe."

We are very sorry to have to change the arrangements to the start of the new term but we would like to emphasise that this isn't a school decision and that we must follow the guidance from the Local Authority and Welsh Government.

COVID-19 is in a very precarious situation across Torfaen and it is therefore important that everyone keeps to the rules in order to safeguard your health and the health of the whole school community.

#### **To summarise:**

|            |   |
|------------|---|
| 4.01.2021  | No children in school. Online learning - school work website. |
| 5.01.2021  | No children in school. Online learning - school work website. |
| 6.01.2021  | *Hub in the school and Online learning - school work website. |
| 7.01.2021  | *Hub in the school and Online learning - school work website. |
| 8.01.2021  | *Hub in the school and Online learning - school work website. |
| 11.01.2021 | Every child in school.  |

\*If you are a **critical worker** and believe that you are eligible for a place for your child in the Hub, please contact the school through the 'Contact us' section of the website to request an eligibility questionnaire. **This needs to be completed and returned by 23<sup>rd</sup> December.** Please also note that any pupils attending the Hub will need to bring a packed lunch.

Best wishes,

Miss Evans and all the staff at Ysgol Gymraeg Cwmbrân